

Herio,
Adrodd, Atal:
Cynllun y
Llywodraeth i Daclo
Troseddau Casineb

Mawrth 2012

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
1. Cyflwyniad.....	5
2. Atal Troseddau Casineb	10
3. Cynyddu Adrodd a Mynediad at Gefnogaeth	15
4. Gwellfa'r Ymateb i Droseddau Casineb.....	19
5. Atodiad A: Ffynonellau Swyddogion Tystiolaeth o Droseddau Casineb	22
6. Atodiad B: Prosiect a Ariannwyd dan y Gronfa Gyffredinol Dioddefwyr a Thystion 2011-14	26

Rhagair y Gweinidog



Mae unrhyw drosedd yn anghywir, ond mae'r hyn sydd wedi ei ysgogi gan gasineb o nodwedd benodol y dioddefydd – p'un a yw hynny eu hil, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhyw, anabledde deongledig neu unrhyw beth arall – yn arbennig o ddifäol. Mae taclo troseddau casineb yn bwysig, nid yn unig oherwydd y goblygiadau difrodus i ddioddefwyr a'u teuluoedd, ond hefyd oherwydd y gall rannu cymunedau.


Credaf fod gan bawb yr hawl i fyw eu bywyd heb fod ofn ymosodiad neu gamdriniaeth oherwydd pwy ydynt, ac rydym wedi dod yn bell ers llofruddiaeth drasig Stephen Lawrence. Mae Prydain heddiw yn llawer mwy amrywiol nag erioed o'r blaen, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonom yn cofleidio'r cyfuniad cyfoethog hwn o wahanol hiliau, diwylliannau, credoau, agweddau a ffyrdd o fyw. Bellach mae gan ddioddefwyr troseddau casineb fwy o amddiffyniad cyfreithiol, gyda'r llysoedd â grymoedd dedfrydu uwch i adlewyrchu difrifoldeb troseddau o'r fath. Mae'r heddlu a gweithwyr yn y System Gyfiawnder Troseddol wedi gwella eu dealltwriaeth a chydabyddiaeth o droseddau casineb, ac wedi gweithio gyda'r sector wirfoddol i drechu rhwystrau ac annog mwy o ddioddefwyr i ddod ymlaen.

Roedd Rhaglen Lywodraethu y Glymblaid yn cynnwys ymroddiad i wella cofnodi troseddau casineb, i roi gwell darlun i ni o ble mae'r problemau ac i helpu'r heddlu ac eraill i ddefnyddio eu hadnoddau yn fwy effeithiol. Ar yr un pryd, er bod troseddau casineb yn parhau i fod heb adrodd amynt yn ddigonol, dengys ffigurau diweddaraf yr heddlu bod mwy o ddioddefwyr anabl, lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn dod ymlaen.

Fodd bynnag, mae yna lawer mwy i'w wneud o hyd, ac ni ddylai neb feddwl am ennyd bod hyn yn broblem yr ydym wedi ei datrys. Dengys yr un ffigurau hynny gan yr heddlu yr adroddwyd ar dros 48,000 o droseddau casineb yn 2010 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hynny yn gwbl annerbyniol mewn cymdeithas sifil, ac er bod pobl y parhau i gael eu hymosod a hyd yn oed lladd oherwydd pwy ydynt, mae'n ddyletswydd arnom i barhau i frwydro yn erbyn casineb ar eu rhan nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Rhaid i'r arweiniad i daclo troseddau casineb ddod o'r lefel leol, gyda gweithwyr proffesiynol, y sector gwirfoddol a chymunedau yn cydweithio i ddelio â materion a blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, mae gan y Llywodraeth rôl allweddol i chwarae o ran gosod cyfeiriad cenedlaethol a chefnogi'r ymdrechion lleol hynny. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gynllun pendant ar gyfer y rôl honno i'r Llywodraeth yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n uno gwaith ystod eang o Adrannau ac asiantaethau i: atal troseddau casineb rhag digwydd o gwbl; cynyddu adrodd a mynediad dioddefwyr at gefnogaeth; a gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb.

Mae yna gryn dipyn y gallwn ni yn y Llywodraeth ei wneud i leihau troseddau casineb a diogelu dioddefwyr, yn arbennig mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gwneud hynny'n glir. Ond dim ond pan fydd pob un ohonom yn barod i sefyll ac wynebu'r casineb sy'n arwain at erlid grwpiau penodol y byddwn yn datrys y broblem hon. Rwy'n galw ar bawb i dderbyn yr her honno, a gyda'n gilydd gallwn drechu troseddau casineb.

A handwritten signature in black ink, reading 'Lynne Featherstone'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Lynne' written in a larger, more prominent script than the surname 'Featherstone'.

Lynne Featherstone AS
Gweinidog Cydraddoldeb

1. Cyflwyniad

1.1 Rydym wedi dod yn bell ers llofruddiaeth frawychus Stephen Lawrence yn 1993. Roedd yr Ymchwiliad i'w farwolaeth, ac Adroddiad Macpherson wedi hynny, yn gatalydd i newid - nid yn unig yn y modd mae'r heddlu a'r system gyfiawnder droseddol troseddol yn delio â throseddau wedi eu hysgogi gan hiliaeth, ond hefyd mewn cydnabyddiaeth fwy eang o droseddau casineb. Yn bwysig, mae yna fwy o ddealltwriaeth bellach o effaith anghymesur troseddau casineb ar ddioddefwyr, ac o'r angen i weithio ar draws asiantaethau a gyda'r sector wirfoddol i drechu'r rhwystrau sydd wedi achosi'r rhai hynny a fu'n gyndyn i ddod ymlaen yn flaenorol. Mae'r gyfraith wedi newid hefyd, wrth greu troseddau newydd a rhoi grymoedd dedfrydu uwch i lysoedd i ddelio â throseddwyr

1.2 Mae llywodraeth, asiantaethau cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol oll wedi cydweithio i wella'r modd y delir â throseddau casineb, ac mae'r Deyrnas Unedig bellach wedi ei gydnabod fel arweinydd y byd yn nhermau deddfwriaeth a'r ymateb gweithredol. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi gweld newid mewn agweddau cymdeithasol yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae'r Deyrnas Unedig wedi dod yn lle mwy bywiog, amrywiol, ble derbynir yn gynyddol nad yw'n dderbyniol i arddangos gelyniaeth a rhagfarn tuag at unigolyn neu grŵp.

1.3 Ni ddylem gamgymryd y cynnydd hwnnw, na'r euogfarnau ar gyfer llofruddiaeth Stephen Lawrence – er y dylid eu croesawu – fel tystiolaeth fod y broblem wedi ei datrys. Dim o'r fath beth. Mae'r trais a'r aflonyddu sydd wedi ei gyfeirio at gymunedau ffydd gan grwpiau eithafol mewn gwrthdystiadau, a llofruddiaethau creulon lan Baynham (gafodd ei ladd mewn ymosodiad homoffobig), Gemma Hayter (dioddefydd trosedd casineb anabledd) ac eraill yn arddangos goblygiadau trasig pan ganiateir i elyniaeth neu gasineb ddwysau. Maent hefyd yn amlygu bod yna lawer mwy y gallwn ac y dylem fod yn wneud i ddiogelu dioddefwyr a delio â throseddau casineb pan fydd yn digwydd. Bydd taclo'r rhagfarn ac anwybodaeth sylfaenol sy'n ysgogi troseddau casineb yn allweddol i'n helpu i symud ymlaen.

1.4 Mae yna heriau newydd yn dod i'r amlwg, ac mae'r rhain yn ein helpu i ffocysu ein hymdrechion. Mae adroddiadau gan MENCAP a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, er enghraifft, wedi amlygu materion difrifol o ran troseddau casineb anabledd. Mae Advancing transgender equality: a plan for action, cynllun gweithredu trawsrywiol cyntaf erioed y Llywodraeth, hefyd yn arddangos ein hymroddiad i gofleidio cymuned sydd wedi ei hymyleiddio yn y gorffennol. Yn y cyfamser, mae'r mater o daclo hiliaeth mewn pêl-droed wedi ailgodi, gan bwysleisio pwysigrwydd pam fod angen i ni barhau i gydweithio i ddatblygu ymagweddau newydd i ddelio â'r materion sy'n ein hwynebu – ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon ynglŷn â thaclo troseddau casineb.

1.5 Creda'r Llywodraeth hwn y dylai pawb fod yn rhydd i fyw eu bywydau heb fod ofn camdriniaeth nac ymosodiad ar sail pw ydynt. Mae unrhyw drosedd yn anghywir, ond mae trosedd sydd wedi ei ysgogi gan gasineb tuag at y dioddefydd yn arbennig o ddifäol. Deall y broblem yw'r cam cyntaf, a dyma pam fod Rhaglen Lywodraethu'r Glymblaid yn cynnwys ymroddiad i wella cofnodi o droseddau casineb Rydym yn cyflawni ar yr ymroddiad hwnnw, ac mae gwybodaeth yr heddlu ar droseddau casineb a adroddir yn cael eu casglu'n ganolog a byddant yn rhan o Ystadegau Troseddau Cenedlaethol am y tro cyntaf. Bydd hyn yn helpu heddluoedd a'u partneriaid lleol i ddyrannu adnoddau yn fwy effeithiol. Ond mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn mynd yn llawer pellach na hynny, gan sefydlu ein rhaglen o waith ar gyfer gweddill y Senedd hon.

1.6 Mae'n hymagwedd polisi tuag at droseddau casineb yn seiliedig ar ymagwedd hawliau dynol. Nid yw, fel y byddai rhai yn honni, yn arwydd o gywirdeb gwleidyddol camsyniol. Mae amddiffyniad rhag camdriniaeth targedig, waeth sut mae'n cyflwyno ei hun, yn hawl a rennir gennym oll p'un a ydym yn rhan o leiafrif neu fwyafrif o'r boblogaeth. Credwn ei bod yn iawn ein bod yn ffocysu ein hymdrechion ar y rhai hynny sydd dan fwyaf o risg, ac yn ceisio cyrraedd sefyllfa ble mae pawb yn rhannu'r un hawl, i fyw yn rhydd rhag camdriniaeth yn seiliedig ar ein nodweddion personol.

Troseddau casineb - beth ydym yn gwybod

1.7 Diffinnir troseddau casineb fel unrhyw dramgwydd troseddol a ddehonglir, gan y dioddefydd neu unrhyw un arall, i fod wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar nodwedd personol.

1.8 Sefydlwyd deddfwriaeth i ddiogelu dioddefwyr a thaclo'r rhai sy'n bwriadu ysgogi casineb hiliol a'r rhai sy'n cyflawni troseddau wedi eu gwaethygu gan hiliaeth neu grefydd neu'n cymryd rhan mewn llafarganu hiliol mewn gemau pêl-droed penodedig ers nifer o flynyddoedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, cyflwynwyd nifer o droseddau newydd, i adlewyrchu difrifoldeb troseddau casineb, yn cynnwys dedfrydu uwch ac ysgogi casineb tuag at grwpiau eraill ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

1.9 Yn 2007, cytunodd yr heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS), Gwasanaeth y Carchardai (bellach y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr) ac asiantaethau eraill sy'n rhan o'r system gyfiawnder droseddol ar ddiffiniad cyffredin o droseddau casineb wedi eu monitro i gwmpasu pump 'ffrwd', yn benodol – anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol. Yn bennaf, roedd hyn i sicrhau diffiniad gweithredol cyson i ganiatáu cofnodi a monitro cywir¹.

1.10 Nid yw hyn yn golygu na all troseddau wedi eu hysgogi gan elyniaeth neu gasineb tuag at nodweddion eraill, fel rhyw, oed neu ymddangosiad, ddigwydd. Mae llofruddiaeth drasig Sophie Lancaster, yr ymosodwyd arni am ddim mwy o reswm na'i golwg, yn arddangosiad graffig o'r ffaith hon. Er y gallai troseddau o'r fath fod y tu allan i'r ffrydiau sy'n cael eu monitro'n genedlaethol, maent fodd bynnag yn droseddau casineb, a dylid eu trin felly. Rydym wedi bod yn glir iawn gyda'r ardaloedd lleol y gallant gynnwys ffrydiau eraill yn ogystal i'r pump sy'n cael eu monitro wrth ddatblygu eu hymagwedd i droseddau casineb. Er enghraifft, mae rhai ardaloedd wedi cynnwys oed neu ryw yn eu hymateb i droseddau casineb, i adlewyrchu pryderon dinasyddion lleol neu mewn ymateb i dueddiadau mewn troseddau lleol.

1 Gweler ACPO http://www.report-it.org.uk/what_is_hate_crime
 CPS http://cps.gov.uk/news/fact_sheets/hate_crime/index.html
 Troseddau Casineb – Cynllun Gweithredu Trawslywodraethol <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.homeoffice.gov.uk/documents/hate-crime-action-plan/hate-crime-action-plan2835.pdf?view=Binary>

1.11 Mae'n bwysig taclo troseddau casineb oherwydd y niwed mae'n achosi i ddioddefwyr a'u teuluoedd, ond hefyd oherwydd yr effaith negyddol a gaiff ar gymunedau parthed cydlyniad ac integreiddiad. Mae yna dystiolaeth bendant i ddangos bod cael eich targedu oherwydd pwy ydych chi yn cael mwy o effaith ar eich lles na bod yn ddioddefydd trosedd 'heb ei dargedu'² - ac fe adlewyrchir hyn mewn deddfwriaeth ble mae grymoedd dedfrydu uwch ar gael i lysoedd wrth ddelio â throseddwyr troseddau casineb. Fe wyddom hefyd y gall troseddau casineb lefel isel ddwysau'n gyflym os na ddelir â nhw yn fuan, gan dargedu dioddefwyr dro ar ôl tro. Fel y gwelwyd mewn nifer o achosion, call y dwysau hwn arwain at ganlyniadau trasig os nad ydynt yn cael eu herio'n fuan. Yn fwy cyffredinol, gall taclo troseddau casineb yn effeithiol – a chael ein gweld i fod yn ei daclo – helpu meithrin cysylltiadau cryfach a phositif rhwng gwahanol rannau o'r gymuned a chefnogi cydlyniad cymunedol.

1.12 Yn 2010, cofnodwyd 48,127 o droseddau casineb gan heddluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon³. O'r rhain roedd:

- 39,311 yn droseddau hiliol;
- 4,883 yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol;
- 2,007 yn droseddau casineb crefyddol;
- 1,569 wedi eu targedu at bobl anabl; a
- 357 yn targedu pobl drawsrywiol.

1.13 Mae'r holl ymchwil sydd ar gael⁴ a thystiolaeth gan sefydliadau gwirfoddol yn awgrymu na adroddir yn ddigonol ar droseddau casineb. Efallai y bydd rhai dioddefwyr yn anfodlon i ddod ymlaen, er enghraifft, am eu bod ofn denu ymosodiadau pellach, am resymau diwylliannol, neu am nad ydynt yn credu y bydd yr awdurdodau yn eu credu. Rydym yn arbennig o awyddus i ddelio ag adrannau mwy ynysig o'r gymuned ble mae dioddefwyr hyd yn oed yn llai tebygol o adrodd ar droseddau. Credwn fod diffyg adrodd yn broblem arwyddocaol ymysg y grwpiau canlynol⁵:

- Cymunedau ymfudwyr newydd, yn cynnwys cymunedau Lloches a Ffoaduriaid;
- Cymunedau Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig a Roma;

2 Er enghraifft Iganski P, Hate Crimes Hurt More, 2001 a Hate Crime and the City, Policy Press, 2008, pp. 6–17, 74–86 Garcia L, McDevitt J, Gu J a Balboni J, Psychological and Behavioural Effects of Bias and Non-Bias Motivated Assault, Adroddiad Terfynol, Gwasanaeth Cyfeirio Cenedlaethol Cyfiawnder Troseddol, Rhagfyr 1999, pp. 53–55, 87 a 94–95.

3 ACPO (2011) Data Troseddau Casineb Cofnodedig 2010 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon http://www.report-it.org.uk/files/acpo_hate_crime_data_for_2010.pdf

4 Er enghraifft, gweler, Dick S, Homophobic Hate Crime: The Gay British Crime Survey 2008, Stonewall. Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Cyfarwyddfa Amrywiaeth a Ffocws Dinasyddion, Women's Experience of Homophobia and Transphobia: Survey Report, 2008, pp. 27–29. Southern R a James Z, Devon-wide Gypsy and Traveller Housing Needs Assessment, Prifysgol Plymouth, Tachwedd 2006, p. 58. Jansson K, Black and Minority Ethnic Groups' Experiences and Perceptions of Crime, Racially Motivated Crime and the Police: Findings from the 2004/05 British Crime Survey, Adroddiad Ar-lein y Swyddfa Gartref 25/06, pp. 23–24. Hefyd, Disabled People's Experiences of Targeted Violence and Hostility: Research Report for the Equality and Human Rights Commission, Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus, Mawrth 2009, pp. 71–75. Disabled People's Experiences of Targeted Violence and Hostility: Research Report for the Equality and Human Rights Commission, Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus, Mawrth 2009, p. 76. Er enghraifft, Getting Away With Murder, Scope, Cyngor Pobl Anabl y Deyrnas Unedig, Disability Now, 2008. O'r golwg yng ngolwg pawb, Ymchwil iad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabled, Medi 2011, pp. 141.

5 Er enghraifft, Whittle S, Turner L ac Al-Alami M, Engendered Penalties: Transgender and Transsexual People's Experiences of Inequality and Discrimination, The Equalities Review, 2007, p. 53. Southern R a James Z, Devon-wide Gypsy and Traveller Housing Needs Assessment, Prifysgol Plymouth, Tachwedd 2006, p. 58. Greenfields M, Home R, Cemlyn S et al., Gorllewin Lloegr; Gypsy Traveller Accommodation (and Other Needs) Assessment 2006–2016, Coleg Prifysgol Buckinghamshire Chilterns, Hydref 2007, p. 130. Living in Fear, Mencap, 2000.

- Dioddefwyr trawsrywiol; a
- Dioddefwyr anabl.

1.14 Dywed ymchwil wrthym hefyd y gall cyfuniadau o'r ffrydiau troseddau casineb cydnabyddedig ac agweddau o hunaniaeth pobl effeithio ar natur, amllder ac ymatebion i ddigwyddiadau casineb a throseddau casineb. Er mwyn taclo troseddau casineb a grymuso a chefnogi dioddefwyr, rhaid ystyried y ffactorau hyn yn rhan o'r ymateb⁶.

1.15 Gwyddom hefyd o adroddiad diweddar y CPS Troseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn 2010-2011⁷:

- Ers 2006/07, erlynwyd bron i 69,000 o ddiffynyddion am droseddau casineb;
- Mae'r nifer o erlyniadau am droseddau casineb hefyd wedi cynyddu o 12,535 i 15,284; a
- Rhwng 2006/07 a 2010/11, cynyddodd y gyfran o erlyniadau llwyddiannus ledled pob math o droseddau casineb o 76.8% i 82.8%.

Mae'r tuedd hwn dros amser yn awgrymu bod agweddau o ymchwilio ac erlyniad yn gwella wrth i ni ddod yn well ar gydnabod ac ymateb i droseddau casineb ledled yr holl ffrydiau sy'n cael eu monitro.

1.16 Mae asiantaethau'r Llywodraeth a sefydliadau sector gwirfoddol wedi cydweithio yn y blynyddoedd diwethaf i geisio trechu'r rhwystrau ac annog mwy o ddioddefwyr troseddau casineb i'w adrodd, er mwyn i ardaloedd lleol allu targedu eu gwaith yn fwy effeithiol a diogelu dioddefwyr yn well. Dengys ystadegau diweddaraf yr heddlu bod adroddiadau o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, lesbiaidd, hoyw a deurywiol a thrawsrywiol wedi cynyddu, sy'n galonogol ac yn awgrymu rhywfaint o welliant. Bydd y ffocws ar adrodd annigonol yn parhau i fod yn ganolog i'n hymagwedd. Fodd bynnag, ein nod hirdymor yw gweld tystiolaeth glir o leihad yn yr achosion o droseddau casineb.

Ein hymagwedd newydd

1.17 Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu ymagwedd newydd i leihau troseddau, yn seiliedig ar ryddhau gweithwyr proffesiynol o reoli micro o'r brig i lawr a thargedau perfformiad, a gwneud yr heddlu yn ddemocrataidd atebol i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig, mapiau troseddau lefel stryd a chyfarfodydd bîth rheolaidd oll yn ffocysu heddluoedd ar y materion sy'n bwysig i bobl leol. Golyga hyn y bydd ardaloedd lleol yn rhydd i ddatblygu strategaethau troseddau casineb sy'n adlewyrchu anghenion lleol, yn hytrach na phryderon y rhai ledled San Steffan.

1.18 Yn y dirwedd newydd honno, rôl y Llywodraeth yw ffocysu ar wneud y pethau sy'n bosibl i'r Llywodraeth wneud yn unig, yn hytrach na dweud wrth weithwyr proffesiynol sut i wneud eu gwaith. Golyga hyn: Sefydlu cyfeiriad strategol; darparu gwybodaeth; rhannu syniadau da ac enghreifftiau o beth sy'n gweithio; a, ble fo angen, pasio deddfwriaeth.

1.19 Felly dyma'r amser i gael Cynllun Gweithredu newydd ar droseddau casineb, yn sefydlu beth ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod gweddill y Senedd hon, gan weithio ledled adrannau Llywodraeth, gydag

6 Er enghraifft, Dick S, Homophobic Hate Crime: The Gay British Crime Survey 2008, p. 7. Iganski P, Kielinger V a Paterson S, Hate Crimes Against London's Jews: An Analysis of Incidents Recorded by the Metropolitan Police Service 2001–2004, Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a'r Sefydliad dros Ymchwil Polisi Iddewig, Gorffennaf 2005, pp. 3. Disabled People's Experiences of Targeted Violence and Hostility: Research Report for the Equality and Human Rights Commission, Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus, Mawrth 2009, p. 33.

7 Ar gael yn: http://www.cps.gov.uk/publications/docs/cps_hate_crime_report_welsh_2011.pdf

asiantaethau lleol a sefydliadau sector gwirfoddol, a hefyd gyda Grŵp Cynghori Annibynnol y Llywodraeth Droseddau Casineb. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar dair egwyddor graidd, y credwn i fod yn angenrheidiol i gyrraedd ein nod hirdymor. Byddwn yn canolbwyntio ar:

- Atal troseddau casineb – trwy herio'r agweddau sy'n sail iddo, ac ymyrraeth gynnar i'w atal rhag gwaethygu;
- Cynnydd adrodd a mynediad at gefnogaeth – trwy feithrin hyder dioddefwyr a chefnogi partneriaethau lleol; a
- Gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb – trwy nodi a rheoli achosion yn well, a delio'n effeithiol â throseddwyd.

1.20 Mae nifer o'r materion y delir â nhw yn y Cynllun Gweithredu hwn wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lechyd a Gofal Cymdeithasol, Addysg, Llywodraeth Leol a gwaith Sefydliadau Gwirfoddol. I'r dibenion hyn, yn ei Raglen Llywodraethu 2011-2016⁸, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei ymroddiad i daclo troseddau casineb ac mae hyn yn cael ei ddwyn ymlaen gan Fframwaith i Weithredu, dan arweiniad y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ⁹. Mae hefyd wedi cyhoeddi 'Teithio at Ddyfodol Gwell' Fframwaith i Weithredu a Chynllun Cyflawni Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cynnwys gwaith i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac i wella ymgysylltiad o fewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr¹⁰. I sicrhau cyflawniad llawn o'r Cynllun Gweithredu, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y meysydd sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen nad ydynt wedi eu datganoli.

1.21 Credwn hefyd bod y gwersi anodd a ddysgodd y Deyrnas Unedig – ac y mae'n dal i ddysgu – ers llofruddiaeth Stephen Lawrence wedi rhoi cyfrifoldeb arnom i rannu ein profiad â gwledydd eraill. Felly byddwn yn parhau i ymgyrchu am weithredu ar droseddau casineb ar lefel ryngwladol, trwy ystod o sefydliadau, yn cynnwys y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithredu yn Ewrop. Mae cyrff rhyngwladol fel y rhain hefyd yn cyflwyno llwybrau i ni ganfod datrysiadau i rai o'r heriau byd eang rydym nawr yn wynebu wrth daclo troseddau casineb dros y rhyngwlad.

1.22 Mae'r penodau canlynol yn cyflwyno pa weithredoedd allweddol fydd yn cefnogi'r egwyddorion hynny dros y tair blynedd nesaf. Bydd y Grŵp y Gweinidogion ar Gydraddoldebau yn goruchwylio'r rhaglen waith hon, sydd wedi ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref a'i gyflawni trwy'r Bwrdd strategaeth Troseddau Casineb, grŵp swyddogion trawsadrannol.

1.23 Byddwn yn adolygu'r Cynllun Gweithredu hwn yn flynyddol er mwyn asesu cynnydd ar gyflawniad y gweithredoedd ac i'n caniatáu i ymateb i faterion newydd ac sy'n codi. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Cynghori Annibynnol y Llywodraeth ar Droseddau Casineb, sy'n cynnwys dioddefwyr troseddau casineb a phartneriaid sector gwirfoddol.

8 <http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929fullcy.pdf>

9 Er enghraifft, yr amcanion cydraddoldeb drafft <http://wales.gov.uk/topics/equality/equalityactatwork/?lang=cy>

10 <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/equality/110928gypsytravellercy.pdf>

2. Atal Troseddau Casineb

Byddwn yn gweithio i atal troseddau casineb rhag digwydd o gwbl trwy herio'r agweddau ac ymddygiadau sy'n meithrin casineb, ac annog ymyrraeth gynnar i leihau'r risg y bydd achosion yn gwaethygu.

2.1 Mae Prydain yn fwy amrywiol nag erioed, gyda chyfoeth o wahanol hiliau, diwylliannau, credoau, agweddau a ffyrdd o fyw. Yn y rhan fwyaf o'n cymdeithas, mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth a dathliad o wahanol gyfraniadau unigolion a grwpiau i'n ffordd o fyw. Mae ystrydebau a rhagfarn oedd yn gyffredin genhedlaeth yn ôl nawr wedi gwrthod yn gyffredinol ar draws y rhan fwyaf o grwpiau.

2.2 Er ein bod wedi dod yn bell, mae casineb a rhagfarn yn dal i fodoli. Mae'r ystadegau diweddaraf o droseddau casineb a adroddwyd a gyhoeddwyd gan yr heddlu yn arddangos y ffaith hon. Mewn rhai achosion, mae targedau newydd wedi cymryd lle hen rai, ac mae yna lawer gormod o ddioddefwyr troseddau casineb o hyd, gyda nifer ohonynt naill ai â gormod o ofn dod ymlaen, neu heb unrhyw ffydd y bydd yr awdurdodau yn gwrando arnynt.

2.3 Dylai pawb fod yn rhydd i fyw eu bywydau heb fod ofn camdriniaeth nac ymosodiad ar sail pwys ydynt, beth maent yn credu ynndo neu sut maent yn edrych. Mae yna bump 'cangen' o droseddau casineb yr ydym yn eu monitro yn ganolog - anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, crefydd neu gred (neu ddiffyg cred) a chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, gellir cymhwyso'r egwyddor yn fwy cyffredinol – dylid hefyd condemnio casineb yn seiliedig ar oed, rhyw, neu ymddangosiad, er enghraifft. Mae'n allweddol fod gweithwyr proffesiynol sy'n delio ag achosion yn cymhwyso'r dysgu o droseddau casineb wedi monitro, pan fydd problemau o'r fath yn bodoli yn lleol. Bydd ymatebion addas yn cydnabod yr angen i leihau'r risg o ddwysâd, tawelu meddwl cymunedau ehangach, yn ogystal â chefnogi dioddefwyr a dod â throseddwyr i gyfiawnder.

2.4 Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i leihau'r niwed a achosir gan droseddau casineb. Mae annog dioddefwyr i ddod ymlaen, a sicrhau fod asiantaethau yn ymateb yn effeithiol pan fyddant yn gwneud hyn, yn elfennau pwysig o'r ymdrech honno. Ond yn yr hirdymor, yr ateb yw stopio troseddau casineb rhag digwydd o gwbl - trwy ei herio a newid agweddau ac ymddygiad sy'n arwain at gasineb, ac ymyrryd yn gynnar i stopio tensiynau a digwyddiadau rhag cynyddu.

2.5 Diffyg dealltwriaeth, atgyfnerthu ystrydebau negatiff ac ofn o'r anhysbys oll gyfrannu at ragfarn. Mae plant a phobl ifanc yn arbennig yn dysgu eu hymddygiadau ac yn llunio eu barnau gan eu cyfoedion a'r

oedolion sydd o'u cwmpas. Yn y cyd-destun hwnnw, mae angen i ni sefyll i fyny a herio gwahaniaethu a rhagfarn, i anfon neges glir nad ydym yn dioddef barnau neu ymddygiad o'r fath cyn iddynt gael cyfle i ennill tir. Trwy fod yn dawel, rydym yn peryglu nid yn unig cael ein gweld i fod yn caniatáu barnau o'r fath, ond hefyd y risg y bydd y rhai sy'n ddiodefwyr wedi eu hynysu.

2.6 Mae gennym oll gyfrifoldeb personol i herio rhagfarn a chasineb, ond dylai'r Llywodraeth a'i asiantaethau arwain trwy esiampl - yn cynnwys manteisio ar gyfleoedd i ddatlu amrywiaeth ac i amlygu'r cyfraniad positif y gall pawb ei wneud ac y maent yn ei wneud i'n cymdeithas.

2.7 Byddwn hefyd yn gweithio'n rhagweithiol i hyrwyddo ymyrraeth fuan, yn rhan allweddol o ymagwedd ataliol sy'n ceisio datrys materion a thensiynau yn fuan cyn y gallant ddod i'r amlwg ar ffurf troseddau casineb.

2.8 Byddwn yn herio agweddau sy'n caniatáu gweithredoedd o droseddau casineb ac yn sicrhau'n bod yn gweithredu'n fuan pan adroddir ar achosion i atal gwaethygiad trwy:

Herio Agweddau		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
1. Datblygu gwell dealltwriaeth o droseddau casineb trwy well ein sylfaen tystiolaeth, yn cynnwys trwy gyhoeddi dadansoddiad o ddata ar erledigaeth troseddau casineb o Arolwg Troseddau Prydain.	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodoraethol ¹¹	Parhaus Mawrth 2012 – Cyhoeddi data Arolwg Troseddau Prydain ar droseddau casineb Gwanwyn 2012 – Cynnal Seminar gydag academyddion a rhanddeiliaid allweddol ac ystyried tystiolaeth ac ymchwil ar droseddau casineb anabledd
2. Trwy ddiwygio lles, cryfhau cyfanrwydd y system fudd-daliadau i leihau'r cyflead negyddol yn y cyfryngau o faterion anabledd.	Yr Adran Waith a Phensiynau	Parhaus
3. Gweithio gyda Sefydliadau Pobl Anabl a sefydliadau cefnogol megis Comisiwn Cwynion y Wasg i ddelio ag ystrydebau negyddol yn y wasg o bobl anabl.	Yr Adran Waith a Phensiynau - Swyddfa Materion Anabledd,	Parhaus
4. Parhau i gefnogi gwaith Anne Frank Trust UK i herio ystrydebau ac anoddefgarwch, yn cynnwys gwrth-semitiaeth, all arwain at droseddau/achosion casineb.	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ¹²	Parhaus Tan Mawrth 2013
5. Gweithio trwy bartneriaid sector gwirfoddol i ddarparu adnoddau ysgol i'w helpu i daclo pob math o fwlio, yn arbennig bwlio wedi ei ysgogi gan ragfarn	ACPO Yr Adran Addysg ¹³ Sefydliadau Sector Gwirfoddol,	Mawrth 2013

11 Mae'r Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol yn cynnwys: holl Adranau perthnasol y Llywodraeth, asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy, a'r Grŵp Cyngori Annibynnol ar Droseddau Casineb.

12 Mae holl weithredoedd yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn berthnasol i Loegr yn unig.

13 Mae holl weithredoedd yr Adran Addysg yn berthnasol i Loegr yn unig.

Herio Agweddau		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
6. Parhau i adolygu cyngor gwrth fwlio'r Llywodraeth i ysgolion sy'n crynhoi'r goblygiadau cyfreithiol a grymoedd sydd gan ysgolion; yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y gall ysgolion ddefnyddio i atal ac ymateb i fwlio, yn arbennig bwlio seiliedig ar ragfarn	Yr Adran Addysg	Parhaus
7. Cefnogi'r Amgueddfa Iddewig i gyflwyno rhaglen beilot i ysgolion uwchradd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ffydd Iddewig a thaclo gwrth-semitiaeth 'hamddenol' mewn ysgolion.	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	O Ebrill 2012
8. Cefnogi Show Racism the Red Card i gynnal gweithdai addysgol ledled Lloegr a fydd yn: <ul style="list-style-type: none"> • darparu manau diogel i bobl ifanc ddysgu am beryglon cymdeithasu â'r English Defence League (EDL); • helpu pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am y materion; ac • eu grymuso i wrthbrofi a herio casineb gwrth-Fwslimaidd 	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ¹⁴	O Ebrill 2012
9. Cefnogi'r Searchlight Educational Trust a fydd yn sefydlu cylchlythyrau cymunedau i: <ul style="list-style-type: none"> • wrthwynebu naratif ymrannol yr EDL; • hyrwyddo hunaniaethau lleol positif a rennir; a • darparu lle i sefydliadau ffydd, cymunedol a gwirfoddol i hysbysebu ac annog cyfranogiad 	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	O Ebrill 2012
10. Taclo alcohol fel ffactor sy'n cyfrannu tuag at drais, yn cynnwys trais sy'n deillio o droseddau casineb, trwy strategaeth alcohol newydd y Llywodraeth, a fydd yn canolbwyntio ar newid ymddygiad y cyhoedd	Strategaeth Trawslywodraethol sy'n cael ei harwain gan yr Adran Iechyd ¹⁴ a'r Swyddfa Gartref	Cyhoeddi Strategaeth Gwanwyn 2012
11. Defnyddio Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 i herio dehongliadau o bobl anabl trwy gynyddu ymwybyddiaeth, delweddau positif a sylw yn y wasg o'r Gemau Paralympaidd	Yr Adran Waith a Phensiynau - Swyddfa Materion Anabledd, Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	Medi 2012
12. Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Anabledd trawslywodraethol newydd gyda phobl anabl, ble fydd un o'i egwyddorion yn herio agweddau ac ymddygiad, yn cynnwys gweithredu a gymerir	Yr Adran Waith a Phensiynau - Swyddfa Materion Anabledd	Gwanwyn 2012
13. Gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i daclo homoffobia a thrawsffobia mewn chwaraeon	Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth, Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	Chwefror 2013

¹⁴ Mae holl weithredoedd yr Adran Iechyd yn berthnasol i Loegr yn unig.

Herio Agweddau		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
14. Nodi cyfleoedd pellach i ddatblygu rhaglen waith gyda phartneriaid i daclo troseddau casineb mewn chwaraeon, canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, adrodd effeithiol, ac ymateb i achosion o droseddau casineb o fewn chwaraeon proffesiynol	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol	Parhaus – i'w adolygu ym Mawrth 2013
15. Gweithio gyda Chymdeithas y Golygyddion i ddatblygu canllaw arfer da ar ragfarn ac iaith casineb ar gyfer cymedrolwyr cynnwys papurau newydd ar-lein	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	Rhagfyr 2012
16. Cefnogi gwaith y Sefydliad Ewropeaidd dros Astudio Gwrth-semitiaeth Gyfoes i nodi enghreifftiau o gynnwys gwrth-semitif mewn cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr mewn cyhoeddiadau ar-lein	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	O Ebrill 2012

Ymyrraeth Gynnar		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
17. Rhoi Byrddau Diogelu Oedolion ar sylfaen statudol, i gynyddu ymwybyddiaeth, canfyddiad ac ataliaeth o gamdriniaeth ac ymelwa ar oedolion mewn sefyllfaoedd bregus.	Adran Iechyd	Erbyn Gaeaf 2012
18. Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i adolygiadau o achos Winterbourne View, a fydd yn sefydlu mesurau i wella amddiffyniad o bobl ag anableddau dysgu mewn gofal ac yn sicrhau fod y system yn ymateb yn gynt i gamdriniaeth bosibl	Adran Iechyd	Erbyn Haf 2012
19. Datblygu rhaglen waith i daclo troseddau casineb ar y rhyngwladol (yn cynnwys gweithio gyda'r diwydiant, yr heddlu, llysoedd, sefydliadau'r UE a sefydliadau rhyngwladol eraill)	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol	Parhaus Gwanwyn 2012 – sefydlu is-grŵp o randdeiliaid allweddol
20. Datblygu ystod o adnoddau gwybodaeth i'w defnyddio gan bartneriaethau/gweithwyr proffesiynol lleol i annog perthynas bositif gyda chymunedau. Dosbarthu'r rhain trwy'r wefan True Vision	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol, Sefydliadau Sector Gwirfoddol	Parhaus Adolygu deunyddiau ym Mawrth 2013
21. Parhau i gefnogi gwaith y gweithgor trawslywodraethol ar wrth-semitiaeth, gyda ffocws arbennig ar: <ul style="list-style-type: none"> Trafodaeth ar wrth-semitiaeth; Gwrth-semitiaeth ar y rhyngwladol; a Gwrth-semitiaeth ar gampysau prifysgolion 	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	Parhaus Lansio prosiect yn Chwefror 2012

Ymyrraeth Gynnar		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
<p>22. Parhau i gefnogi gwaith y gweithgor Trawslywodraethol ar gasineb gwrth-Fwslimaidd a datblygu rhaglen gynhwysfawr o waith, i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio'r amgylchiadau sy'n creu casineb gwrth-Fwslimaidd; a • Cyflawni ymarfer cwmpasu, i greu sylfaen tystiolaeth 	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	Parhaus Sefydlu Gweithgor yn Ionawr 2012
<p>23. Cefnogi prosiect 'Measuring Anti-Muslim Attacks' (MAMA) Faith Matters i gefnogi dioddefwyr casineb gwrth-Fwslimaidd a mapio achosion gwrth-Fwslimaidd a throseddau casineb</p>	Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol	Parhaus Lansio prosiect yn Chwefror 2012

3. Cynyddu adrodd a mynediad at gefnogaeth

Byddwn yn gweithio i gynyddu adrodd ar droseddau casineb sy'n digwydd trwy fagu hyder dioddefwyr i ddod ymlaen a cheisio sicrhau cyfiawnder. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau fod y gefnogaeth gywir ar gael pan fyddant.

3.1 Awgryma tystiolaeth ymchwil y gall fod diffyg adrodd enfawr ar droseddau casineb ac achosion casineb, yn arbennig ymysg cymunedau penodol. Er enghraifft, canfu arolwg Stonewall yn 2008¹⁵, o sampl o 1,721 o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol ledled Prydain, roedd un o bob wyth wedi dioddef digwyddiad casineb homoffobig yn y flwyddyn flaenorol. Canfu'r astudiaeth hefyd, o'r rhai a gyfwelwyd, nad oedd tri o bob pedwar o ddiodefwyr trosedd casineb homoffobig wedi adrodd ar eu profiadau i'r heddlu. Awgryma tystiolaeth o'n Grŵp Cyngori Annibynnol bod diffyg adrodd yn fwy ble mae'r dioddefydd wedi ei 'ynysu' fwy, ac maent yn creu fod y broblem yn arbennig o heriol pan fydd y dioddefydd:

- o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig a Roma,
- o gymunedau ymfudwyr 'newydd', yn cynnwys cymunedau lloches a ffoaduriaid,
- anabl, neu
- drawsrywiol

3.2 Awgryma arolygon¹⁶ o unigolion sydd wedi eu heffeithio gan droseddau casineb fod yna ystod o resymau dros eu hamharodrwydd i'w adrodd, yn cynnwys:

- Digwyddiadau yn codi'n rhy aml i adrodd pob un;
- Dioddefwyr yn amau a yw'r gamdriniaeth neu ymosodiad yn ddigon difrifol i fynd i'r drafferth o'i adrodd, neu'n gwybod a yw'n cyfateb i drosedd;
- Ofn erledigaeth bellach am fynd at yr heddlu;
- Pryder na fydd yr heddlu yn gallu gwneud unrhyw beth, fel eu bod yn ei dderbyn fel bod yn rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd;
- Pryder na fydd yr heddlu yn gwneud unrhyw beth oherwydd eu rhagfarn ac/neu ddiffyg cydymdeimlad;

15 Dick S, Homophobic Hate Crime: The Gay British Crime Survey 2008, Stonewall

16 Gweler y cyfeiriadau yn nhroednodyn 3.

- Mae dioddefwyr ofn y byddant yn cael eu “datgelu” (e.e. fel rhywun hoyw neu ag anghenion iechyd meddwl); ac/neu
- Diffyg mynediad yn gwneud adrodd yn rhy anodd (e.e. dim cyfieithwyr ar gael neu ni all rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad at orsaf yr heddlu).

3.3 Rydym yn ymroddedig i'w gwneud yn haws i ddiodefwyr troseddau casineb adrodd ar beth sydd wedi digwydd iddynt, naill ai'n uniongyrchol i'r heddlu neu ar-lein trwy'r wefan True Vision – neu os oes yn well ganddynt – i sefydliad arall sy'n gallu trosglwyddo'r adroddiad i'r heddlu. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod diodefwyr yn hyderus os byddant yn adrodd ar drosedd casineb, y bydd yr heddlu ac asiantaethau eraill yn ei ystyried yn ddifrifol ac yn gwneud rhywbeth ynglŷn â'r mater. Mae hyn yn wir hyd yn oed os ymddengys fod y digwyddiad yn un dibwys – ni allwn atal troseddau casineb rhag digwydd os yw'r arwyddion rhybudd cynnar wedi eu cuddio.

3.4 Mae'r ffocws hwn ar adrodd wedi ei ysgogi gan angen i ddatblygu darlun gwell o raddfa, difrifoldeb ac achosion y broblem. Heb y darlun hwnnw, ni allwn sicrhau fod adnoddau yn y lle priodol i daclo troseddau, ac i roi'r amddiffyniad a chefnogaeth i ddiodefwyr maent ei angen.

3.5 Mae'r Llywodraeth hwn wedi gwneud lleoliaeth yn flaenoriaeth. Credwn y dylai'r asiantaethau sy'n diogelu a gwasanaethu'r cyhoedd ymateb i'w hanghenion a phryderon penodol, nid i dargedau San Steffan. Rhaid datblygu strategaethau i ddelio â throseddau casineb yn lleol, gan weithwyr proffesiynol a phartneriaethau yn cydweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol a diodefwyr eu hunain, er mwyn tacio'r materion sy'n bwysig yn yr ardal leol honno. O fis Tachwedd eleni, bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau fandad democrataidd i ddal yr heddlu a'u partneriaid yn atebol ar ran diodefwyr a'r cyhoedd. A dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i'r Comisiynwyr ddal prif gwnstabiaild yn atebol am gyflawni eu dyletswyddau yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth a orfodir arnynt gan ddeddfwriaeth arall.

3.6 Yn Ionawr fe gyhoeddodd ein hymgyngoriad, “Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion¹⁷, sy'n cynnwys cynigion i gomisiynu'r mwyafrif o wasanaethau cefnogaeth i ddiodefwyr troseddau, yn cynnwys diodefwyr troseddau casineb, ar lefel leol yn hytrach na gan lywodraeth ganolog. Mae hefyd yn cynnig mai'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau fydd yn y safle gorau i gomisiynu gwasanaethau diodefwyr yn lleol, gan sicrhau y darperir ar gyfer blaenoriaethau ac anghenion lleol, gyda ffocws arbennig ar anghenion diodefwyr troseddau difrifol, y rhai hynny sydd wedi eu targedu'n gyson ac sydd fwyaf bregus. Byddai disgwyliad yn cael ei osod ar gomisiynwyr lleol i asesu anghenion y gymuned leol ac i sefydlu gwasanaethau i fodloni'r anghenion hyn.

3.7 Fodd bynnag, mae gan y Llywodraeth rôl allweddol i'w chwarae o ran gwneud i'r ymagwedd fwy lleol hon weithio. Gwaith y Llywodraeth yw gosod y cyfeiriad strategol, gyda neges glir a chyson ar bwysigrwydd tacio troseddau casineb a diogelu diodefwyr. Gwaith y Llywodraeth yw i ddeddfu ble fo angen; i sicrhau fod mwy o ddata lefel cenedlaethol ar gael a'i fod yn well, fel bod gennym well dealltwriaeth o ble mae troseddau casineb yn digwydd a pham; ac i annog syniadau newydd ac amlygu enghreifftiau o arfer da - o ran ataliaeth, cefnogi diodefwyr, a gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb - er mwyn i ardaloedd lleol weld beth sy'n gweithio.

3.8 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaethau lleol i gynyddu adrodd a mynediad diodefwyr at gefnogaeth trwy:

17 <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses>

Magu hyder dioddefwyr		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
1. Cyhoeddi data'r heddlu ar droseddau casineb a gofnodwyd fel Ystadegau Cenedlaethol, y gellir eu cymharu rhwng heddluoedd	Y Swyddfa Gartref	Haf 2012
2. Nodi meysydd ar draws y system gyfiawnder droseddol, ble gellir gwella casglu a dosbarthu data, er enghraifft, troseddau casineb trawsrywiol	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol	Mawrth 2013
3. Cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd	Pob Adran	Gwanwyn 2012
4. Ymgysylltu â chymunedau dan risg o droseddau casineb i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith ar droseddau casineb, ac i gynyddu adrodd	Gwasanaeth Erlyn y Goron	Parhaus (O Ebrill 2012)
5. Gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol i sefydlu a dosbarthu arfer da ar ddulliau amgen o adrodd ar droseddau casineb anabledd, yn cynnwys gweithio gyda Disability Rights UK ar safonau ar gyfer canolfannau adrodd trydydd parti	Yr Adran Waith a Phensiynau - Swyddfa Materion Anabledd	Parhaus Chwefror 2012 – lanswyd Canllaw 'Let's Stop Disability Hate' Rhagfyr 2012 – dosbarthu gwybodaeth arfer da i ddioddefwyr anabl troseddau casineb
6. Gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol i sefydlu, adolygu a dosbarthu arfer da ar ddulliau amgen o adrodd mathau eraill o droseddau casineb, yn cynnwys canolfannau adrodd trydydd partiön a chefnogi prosiect 'Measuring Anti-Muslim Attacks' Faith Matters i fapio digwyddiadau a thensiynau gwrth-Fwslimaidd.	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywodraethol, Sefydliadau sector gwirfoddol	Parhaus Adolygu cyrff cenedlaethol ym Medi 2012
7. Cefnogi gwaith True Vision i: <ul style="list-style-type: none"> sicrhau fod mwy o bobl yn ymwybodol o'r mecanwaith i adrodd ar droseddau casineb ar-lein; datblygu pecynnau sy'n targedu'r cymunedau hynny ble na adroddir yn ddigonol yn droseddau casineb; nodi arfer gorau lleol da ar droseddau casineb y gellir ei rannu'n genedlaethol trwy'r wefan; a helpu darparu'r seilwaith i grwpiau sector gwirfoddol lleol a chenedlaethol integreiddio i system adrodd genedlaethol 	ACPO, Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Sefydliadau Sector Gwirfoddol	Parhaus (O Ebrill 2012)

Magu hyder dioddefwyr		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
<p>8. Defnyddio True Vision i ddsbarthu gwybodaeth ar droseddau casineb i grwpiau dioddefwyr, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pecyn gwybodaeth ar beth yw troseddau casineb a sut i adrodd arno ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr; • Deunydd i godi ymwybyddiaeth i daclo casineb tuag at Fwslimaidd; a • Gweithio gyda sefydliadau sector gwirfoddol i hyrwyddo deunydd codi ymwybyddiaeth ar gyfer cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr newydd 	<p>ACPO,</p> <p>Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol,</p> <p>Sefydliadau Sector Gwirfoddol</p>	<p>Parhaus</p> <p>Lansio deunyddiau Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwanwyn 2012</p> <p>Lansio deunydd casineb gwrth-Fwslimaidd erbyn – Haf 2012</p>
<p>9. Casglu a chyhoeddi enghreifftiau lleol o beth sy'n gweithio i atal a thaclo troseddau casineb ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol</p>	<p>Y Swyddfa Gartref</p>	<p>Hydref 2012</p>
<p>10. Ariannu 19 o sefydliadau yn gweithio gyda dioddefwyr troseddau casineb (£2.1 m dros dair blynedd o 2011/12 i 2013/14)¹⁸</p>	<p>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</p>	<p>Cyllid ar gyfer 2011/12 wedi ei ddyrannu</p> <p>Cyllid atodol yn amodol i adolygiadau chwarterol</p>
<p>11. Ariannu 13 o sefydliadau yn gweithio i daclo troseddau casineb o Gronfa Arloesi Gweithredu Cymunedol yn Erbyn Troseddau y Swyddfa Gartref, dros ddwy flynedd o 2011/12 i 2012/13¹⁹</p>	<p>Y Swyddfa Gartref</p>	<p>Cyllid ar gyfer 2011/12 wedi ei ddsbarthu o Chwefror 2012</p> <p>Cyllid atodol yn amodol i adolygiadau cynnydd</p>
<p>12. Nodi arfer da o gyllid prosiectau i'w ddsbarthu'n fwy eang</p>	<p>Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywdoraethol</p>	<p>Parhaus</p> <p>Adolygu prosiectau Dioddefwyr a Thystion i nodi enghreifftiau o arfer da erbyn – Hydref 2012</p>
<p>13. Darparu cefnogaeth i Sefydliadau dan Arweiniad Defnyddwyr Pobl Anabl i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau ar Droseddau Casineb</p>	<p>Yr Adran Waith a Phensiynau - Swyddfa Materion Anabledd</p>	<p>Parhaus</p>
<p>14. Gweithio gyda heddluoedd, cynghorau a darparwyr tai i wella delio â galwadau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, i nodi troseddau casineb posibl a dioddefwyr dan risg</p>	<p>ACPO,</p> <p>Y Swyddfa Gartref,</p>	<p>Parhaus</p> <p>Cyhoeddi Adroddiad Crynodeb Delio â Galwadau – Gwanwyn 2012</p>
<p>15. Gweithio gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i nodi cyfleoedd i gefnogi prosiectau sy'n ceisio gwella ein dealltwriaeth o amgylchiadau ac ysgogiadau troseddwyr casineb</p>	<p>Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywdoraethol</p>	<p>Parhaus (O Ebrill) 2012</p>
<p>16. Sicrhau fod trefniadau newydd ar gyfer comisiynu dan arweiniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau o wasanaethau lleol i ddioddefwyr yn ystyried anghenion dioddefwyr troseddau casineb</p>	<p>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder</p>	<p>O 2014 (yn amodol i ganlyniad yr ymgynghoriad "Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion")</p>

¹⁸ Gweler Atodiad B am restr o sefydliadau

¹⁹ Bydd manylion y prosiectau a ariennir dan y Gronfa Arloesi Gweithredu Cymunedol yn Erbyn Troseddau ar gael yn fuan ar wefan y Swyddfa Gartref.

4. Gwella'r ymateb i droseddau casineb

Byddwn yn gweithio gyda'r asiantaethau sy'n llunio'r System Gyfiawnder Troseddol i wella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb. Rydym eisiau proses pen i ben mwy effeithiol, gydag asiantaethau yn nodi troseddau casineb yn gynnar, yn rheoli achosion ar y cyd ac yn delio'n gadarn â throseddwyr.

4.1 Mae gennym un o fframweithiau deddfwriaeth mwyaf cynhwysfawr y byd i amddiffyn dioddefwyr troseddau casineb, a chosbi troseddwyr. Sefydlwyd deddfwriaeth i daclo'r rhai sy'n bwriadu ysgogi casineb hiliol a'r rhai hynny sy'n cyflawni troseddau wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd ers nifer o flynyddoedd. Ac yn y blynyddoedd diwethaf, cyflwynwyd nifer o droseddau newydd, i adlewyrchu difrifoldeb ysgogi casineb tuag at grwpiau eraill, yn cynnwys ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

4.2 Mae difrifoldeb troseddau casineb hefyd wedi ei adlewyrchu trwy ddeddfrydu uwch. Gosododd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 fan cychwyn deddfrydu o 30 mlynedd am lofruddiaeth wedi ei ysgogi gan elyniaeth tuag at hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol y dioddefydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r grym i'r llysoedd gynyddu'r ddeddfryd ar gyfer troseddau sydd wedi eu gwaethygu gan elyniaeth tuag at y dioddefydd yn seiliedig ar eu hanabledd, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

4.3 Er mwyn dod â'r ddeddfwriaeth hon yn unol â grwpiau troseddau casineb eraill sy'n cael eu monitro, bydd Mesur Cymorth Cyfreithiol, Deddfrydu a Chosbi Troseddwyr yn addasu Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 fel bod gan lofruddiaethau a ysgogwyd gan gasineb neu elyniaeth tuag at dioddefwyr anabl neu drawsrywiol bwynt cychwyn deddfrydu o 30 mlynedd. Bydd hefyd yn addasu'r Ddeddf fel bod deddfryd unrhyw drosedd a ddangosir i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth tuag at y dioddefydd ar sail drawsrywiol yn fwy difrifol.

4.4 Ond dim ond pan fydd cydrannau'n System Gyfiawnder Troseddol - yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (yn cwmpasu carchardai a'r gwasanaeth prawf) - a phartneriaid lleol a sefydliadau gwirfoddol yn cydweithio i ddod â throseddwyr i gyfiawnder fydd y fframwaith hwnnw yn effeithiol. Golyga hynny bod angen ymateb amlasiantaethol ble:

- mae partneriaid lleol yn darparu gwybodaeth ar droseddau casineb a'r gwasanaethau cefnogaeth sydd ar gael i gynorthwyo dioddefwyr;
- mae'r heddlu yn delio'n ddifrifol â phob adroddiad o droseddau casineb, can sylwi ar dioddefwyr bregus ac yn gweithio gyda phartneriaid lleol eraill i ddod â throseddwyr i gyfiawnder;

- mae Gwasanaeth Eryl y Goron yn erlyn troseddau casineb ble bynnag fo'n bosibl ac yn denu sylw'r llys i nodweddion gwaethgol o'r fath i ddibenion dedfrydu;
- mae'r llys yn ystyried ffactor waethgol troseddau casineb ac yn traddodi dedfryd uwch yn unol â hynny; ac
- mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn gweithio i adfer troseddwyr; a sicrhau nad ydynt yn aildroseddu.

4.5 Rydym yn ymroddedig i system gyfiawnder droseddol sy'n gydgysylltiedig yn ei ymagwedd i droseddau casineb, a ble mae arferion yn cyd-fynd ag uchelgeisiau. O'r foment pan adroddir y digwyddiad i'r heddlu, rhaid i ni sicrhau fod troseddau casineb wedi eu rheoli'n ofalus trwy bob cam o'r broses gan weithwyr proffesiynol sy'n deall y materion ac yn hysbysu dioddefwyr am beth sy'n digwydd. Byddwn yn parhau i adolygu'r gyfraith yn gyson, gan weithredu ble fo angen i hybu'r amddiffyniad mae'n gynnig i ddiodefwyr troseddau casineb.

4.6 Bydd system gyfiawnder droseddol mwy cydgysylltiedig yn dod â mwy o droseddwyr i gyfiawnder, gan gynyddu'r nifer o erlyniadau troseddau casineb llwyddiannus. Bydd arddangos ein hymroddiad ac effeithlonrwydd yn weladwy hefyd yn sicrhau y bydd gan fwy o ddiodefwyr hyder i ddod ymlaen, gan wybod y byddant yn cael gwrandawriad teg.

4.7 Byddwn yn nodi a rheoli achosion yn well, ac yn delio â throseddwyr yn effeithiol trwy:

Gwella nodi a rheolaeth o achosion		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
1. Cyhoeddi Llawlyfr Troseddau Casineb newydd i swyddogion yr heddlu, sy'n cynnig canllaw i unrhyw sefydliadau'r heddlu a'u partneriaid ar ddelio ag achosion o droseddau casineb.	ACPO	Ebrill 2012
2. Diweddarau hyfforddiant ar gyfer holl rolau'r heddlu sy'n ymwneud â thaclo troseddau casineb, yn seiliedig ar Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddiant llawn.	ACPO	Comisiynu erbyn Mawrth 2013
3. Cynnal Cynhadledd Troseddau Casineb ACPO i ddod ag arweinyddion troseddau casineb, ymddygiad gwrthgymdeithasol a 'gwarchod' ynghyd i chwilio am ymagweddau cyffredin i fod o fudd i holl ddiodefwyr troseddau casineb	ACPO	Mawrth 2012
4. Nodi rolau ymarferwyr ble nad yw hyfforddiant ar droseddau casineb ar gael ar hyn o bryd – a datblygu offer i'w cynorthwyo i ddelio ag achosion o droseddau casineb	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywdoraethol, Sefydliadau Sector Gwirfoddol	Mawrth 2013
5. Cyhoeddi offer asesiad risg sy'n galluogi'r heddlu ac eraill sy'n delio â galwadau i nodi diodefwyr troseddau casineb yn gynharach yn y broses adrodd	Y Swyddfa Gartref	Hydref 2012
6. Gweithio gyda chymunedau trawsrywiol i ddatblygu canllaw i erlynyddion a chefnogaeth arall	Gwasanaeth Eryl y Goron	Sefydlu is-grŵp y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ym Mawrth 2012

Gwella nodi a rheolaeth o achosion		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
7. Datblygu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu Troseddau casineb Anabl, mewn ymateb i Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau dynol i aflonyddu seiliedig ar anabledd. Bydd y gweithredoedd wedi eu grwpio ynghyd dan saith thema arweinyddiaeth, data, cefnogaeth, arfer da, perfformiad, dioddefwyr a thystion, a phartneriaeth	Gwasanaeth Eryl y Goron	Ebrill 2012
8. Adolygu ymroddiad i ddiodefwyr a thystion i wella'r gwasanaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf	Gwasanaeth Eryl y Goron	Ebrill 2012

Delio'n effeithiol â throseddwy		
Gweithred	Arweinydd	Amseriad
9. Addasu Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 fel bod llofruddiaethau a ysgogir gan gasineb neu elyniaeth tuag at ddiodefwyr anabl neu drawsrywiol â man cychwyn dedfrydu o 30 mlynedd; ac - rhaid i'r ddedfryd ar gyfer unrhyw drosedd a welir i fod wedi ei ysgogi gan elyniaeth tuag at y diodefydd ar sail drawsrywiol fod yn fwy llym	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Mai 2012
10. Cyflawni adolygiad o ddedfrydau ar gyfer troseddau a ysgogir gan elyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywiol i ystyried a oes angen troseddau penodol newydd tebyg i droseddau a waethygir gan hiliaeth neu grefydd.	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywdoraethol	Mawrth 2013
11. Ystyried unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd gan sefydliadau pobl anabl i asesu a yw'n darparu achos i newid y gyfraith ar ysgogi casineb ar sail anabledd	Rhaglen Troseddau Casineb Trawslywdoraethol, Sefydliadau sector gwirfoddol	Parhaus
12. Datblygu hyfforddiant mandedig ar gyfer erlynyddion ar achosion troseddau casineb yn ymwneud â'r diodefwyr hynny gyda materion iechyd meddwl ac anableddau dysgu	Gwasanaeth Eryl y Goron	Hyfforddiant i'w werthuso o Fehefin 2012
13. Cynhyrchu fframwaith Troseddau casineb yn delio â charchardai a'r Gwasanaeth Prawf, i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli cynlluniau rheoli risg/dedfrydu troseddwy. I gynorthwyo staff i nodi, asesu, ymyrryd a rheoli pobl sy'n gysylltiedig â throseddau yn ymwneud â chasineb	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy	Gorffennaf 2012
14. Asesu cwmpas ar gyfer gwarediadau amgen, yn cynnwys Cyfiawnder Adferol, i gynnig ymateb amgen i droseddau casineb llai difrifol	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Mawrth 2013

Atodiad A: Ffynonellau Swyddogol tystiolaeth ar Troseddau Casineb

Erbyn hyn mae yna gorff cynyddol o ddata swyddogol ar amllder troseddau casineb yn cynnwys:

Data ACPO / yr Heddlu ar Droseddau Casineb: Ar hyn o bryd ystadegau ACPO yw prif ffynhonnell tystiolaeth sydd ar gael ar y pum ffrwd sy'n cael eu monitro o droseddau casineb fel y'i hadroddir i'r heddlu. Dechreuodd ACPO gofnodi pum math o droseddau casineb i'r heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2008, yn cynnwys troseddau casineb yn ymwneud â hil, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywiol ac anabled.

Data'r Heddlu ar Ddigwyddiadau Hiliol: Mae "digwyddiad hiliol" yn unrhyw ddigwyddiad, yn cynnwys unrhyw drosedd, a ddehonglir i fod yn hiliol gan y dioddefydd neu unrhyw unigolyn arall. Cyhoeddir y nifer o achosion hiliol gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn flynyddol gan y Swyddfa Gartref yn rhan o gyfres Casgliadau Ystadegol y Swyddfa Gartref. Mae hefyd yn cael ei gyhoeddi yn rhan o'r gofynion dan adran 95 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 ac yn adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Statistics on Race and the Criminal Justice System, sy'n uno gwybodaeth ystadegol ar sut mae aelodau o'r gymuned Duon a Lleafrifoedd Ethnig wedi eu cynrychioli yn y System Gyfiawnder Troseddol fel rhai a ddrwgdybir, troseddwy, dioddefwyr a chyflogeion/ymarferwyr.

Data'r Heddlu ar droseddau wedi eu gwaethygu gan Hiliaeth a Chrefydd: Cofnodir ffigurau ar droseddau wedi eu gwaethygu gan hiliaeth a chrefydd, a gyflwynwyd gan adrannau 28 i 32 o'r Ddeddf Troseddau ac Anrhefn 1998 ac adran 39 y Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Troseddau a Diogelwch 2001 gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae categorïau troseddau o 2008/09 yn cynnwys, aflonyddu; gwir niwed corfforol a niwed corfforol difrifol heb fwriad; difrod troseddol; ac ymosodiad heb anaf. Cyn 2008/09, defnyddiwyd anafu llai difrifol fel categori cyn ei amnewid gyda gwir niwed corfforol a niwed corfforol difrifol heb fwriad. Mae'r data hyn hefyd wedi ei gyhoeddi yn rhan o'r gofynion dan adran 95 Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 yng nghyhoeddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder Statistics on Race and the Criminal Justice System.

Data CPS / Erlyniadau ar Droseddau Casineb: Yn 2008, dechreuodd y CPS gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Droseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr²⁰. Mae'r cyhoeddiad mwyaf diweddar, Adroddiad troseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn 2010-2011 yn cyflwyno gwybodaeth ar berfformiad y CPS yn erlyn troseddau casineb hiliol a chrefyddol, troseddau trawsffobaidd a homoffobaidd, a throseddau casineb anabledd.

The Life Opportunities Survey (LOS): ****Arolwg arhydol newydd ar raddfa fawr o anabledd yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban, a gomisiynwyd gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl (ODI) ac a gychwynwyd yn 2009. Mae'r arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau ar droseddau casineb a bydd yn helpu creu darlun arhydol o brofiadau troseddau casineb unigolion gydag anableddau a namau.

Mae'r ffynonellau hyn yn darparu gwahanol fesurau o droseddau casineb, gan gwmpasu'r rhai a adroddwyd i'r heddlu a'u cofnodi ganddynt, y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd am drosedd casineb ac achosion a hunan adroddwyd o droseddau casineb (h.y. yn cynnwys y rhai na adroddwyd i'r heddlu). Ceir crynodeb o'r casgliadau mwyaf diweddar o bob un o'r ffynonellau hyn isod.

Ystadegau'r Heddlu

Data Troseddau Casineb ACPO

Dengys y data mwyaf diweddar a gyhoeddwyd, ar y cyfan, i'r heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gofnodi 48,127 o droseddau casineb yn 2010. O'r rhain, roedd 39,311 yn ymwneud â hil, 4,883 â chyfeiriadedd rhywiol, 2,007 â ffydd, 1,569 ag anabledd a 357 ag achosion trawsrywiol²¹.

Oherwydd gwelliannau yn y modd mae heddluoedd yn casglu a chofnodi data troseddau casineb ers dechrau casglu yn 2008, ni chynghorir cynnal cymariaethau uniongyrchol blwyddyn ar flwyddyn a chymariaethau rhwng heddluoedd am y tro. Ar hyn o bryd, disgwylir i gynnydd mewn data adlewyrchu awgrym o gynnydd mewn adrodd ac nid cynnydd yn yr achosion o droseddau casineb.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y data presennol yn dod o system TG gweinyddol, ac felly nid oes ganddynt statws ystadegau cenedlaethol am y tro²².

Yn 2011/12 daeth ffigurau'r heddlu ar droseddau casineb yn rhan o Ofyniad Data Blynyddol y Swyddfa Gartref - rhestr gyfyngedig o'r holl geisiadau arferol am ddata a wnaed i'r holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr dan rymoedd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol.

Achosion Hiliol

Dengys Casgliadau Ystadegol Swyddogol y Swyddfa Gartref I/II y cofnodwyd 51,187 o ddigwyddiadau

20 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn cydnabod fod data'r CPS ar gael trwy ei System Rheoli Achosion (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth (MIS) cysylltiedig. Mae'r CPS yn casglu data i gynorthwyo rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol yn ôl diffiniad y Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae'r data hwn wedi dod o system TG gweinyddol y CPS, sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn amodol i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro ac yn amodol i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei gofnodi gan y CPS.

21 Gweler ACPO (2011) Recorded Hate Crime Data for 2010 for England, Wales and Northern Ireland. http://www.report-it.org.uk/files/acpo_hate_crime_data_for_2010.pdf

22 Efallai y bydd y data hwn yn derbyn dyfarniad statws ystadegau cenedlaethol yn y dyfodol unwaith y bydd troseddau casineb wedi dod yn rhan o Ofyniad Data Blynyddol y (ADR) y Swyddfa Gartref.

hiliol gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2010/11. Mae hyn yn arddangos lleihad o 7% ar y nifer o ddigwyddiadau hiliol a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2009/10 (54,872). Dengys y ffigurau hefyd rhwng 2009/10 a 2010/11 y cafwyd lleihad yn y nifer o ddigwyddiadau hiliol a adroddwyd mewn 26 o'r 43 o ardaloedd heddlu²³.

Troseddau wedi eu gwaethgu gan Hiliaeth a Chrefydd

Yn 2010/11, cofnododd yr heddlu 31,486 o droseddau wedi eu gwaethgu gan hiliaeth neu grefydd ledled Cymru a Lloegr. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd o 2006/07 i 2010/11, cafwyd gostyngiad o 26% yn y nifer o droseddau wedi eu gwaethgu gan hiliaeth a chrefydd yng Nghymru a Lloegr o 42,554 i 31,486. Dim ond pump o heddluoedd a gofnododd gynnydd rhwng 2006/07 a 2010/11²⁴.

Crëwyd y troseddau wedi eu gwaethgu hyn i ganiatáu ar gyfer dedfrydu mwy difrifol ar gyfer y categorïau penodol hyn o drosedd ac, felly, ni ddylid eu hystyried i fod yn fesur ehangach o droseddau casineb.

Mae data a gofnodir gan yr heddlu ar ddigwyddiadau hiliol a throseddau wedi eu gwaethgu gan hiliaeth a chrefydd rhywfaint yn wahanol i'r ystadegau troseddau casineb hiliol a gofnodwyd gan ACPO, oherwydd eu diffiniad. Er enghraifft, mae digwyddiadau hiliol yn cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â throseddau anhysbysadwy yn ogystal â throseddau hysbysadwy, tra bod data ACPO yn ymwneud â throseddau a gofnodwyd sydd wedi eu nodi fel troseddau casineb dan y Diffiniad a gytunwyd o Droseddau Casineb wedi eu Monitro. Yn ogystal, mae data ACPO yn ymwneud â blwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn ariannol.

Data ar Ddiffynyddion

Dengys Adroddiad troseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn 2010-2011 y CPS²⁵, ers 2006/07, erlynwyd bron i 69,000 o ddiffynyddion am droseddau casineb.

Rhwng 2006/07 a 2010/11, cynyddodd y gyfran o euogfarnau llwyddiannus ar draws pob math o droseddau casineb o 76.8% i 82.8%. Cynyddodd y nifer o erlyniadau hefyd o 12,535 i 15,284. O'r canlyniadau llwyddiannus yn 2010/11, roedd 85.5% yn cynnwys ple euog.

Roedd y troseddau a erlynwyd amlaf yn droseddau yn erbyn y person a throseddau trefn gyhoeddus (44.3% a 36.3% yn y drefn honno).

Roedd y rhan fwyaf o ddiffynyddion ar draws pob ffrwd troseddau casineb yn ddynion (83.3%), nodwyd 73.7% fel perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd 50.9% yn 25-59 oed a 28.9% rhwng 18-24 oed.

Data ar Ddiodefswyr

Yn Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl Wave One, casgliadau o'r Life Opportunities Survey²⁶ yn seiliedig ar gyfanswm o 31,161 o gyfweiliadau, yn 16 oed neu'n hŷn mewn 19,951

23 Gweler Casgliadau Ystadegol y Swyddfa Gartref I/II

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/science-research-statistics/research-statistics/crime-research/hosf0111/>

24 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011). Ystadegau ar Hil a'r System Gyfiawnder Droseddol 2010

<http://www.justice.gov.uk/downloads/statistics/mojstats/stats-race-cjs-2010.pdf>

25 Ar gael yn: http://www.cps.gov.uk/publications/docs/cps_hate_crime_report_welsh_2011.pdf

26 Office for Disability Issues (2011) Life Opportunities Survey: Wave One results, 2009/11.

Ar gael yn: http://statistics.dwp.gov.uk/asd/asd1/los/los_wave_one_200911.pdf

o gartrefi (cafwyd cyfradd ymateb cartrefi o 59% o'r 33,921 o gartrefi cymwys). Canfu'r arolwg fod 2% o'r oedolion a holwyd wedi dioddef o drosedd casineb (a ddiffiniwyd fel trosedd yn erbyn rhywun neu eu heiddo ar sail eu nodweddion personol, er enghraifft crefydd, tarddiad ethnig, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol) yn ystod y 12 mis diwethaf. Gofynnwyd i'r rhai a adroddodd drosedd casineb i ddewis pob ysgogiad ar gyfer y drosedd oedd yn berthnasol iddynt o'r canlynol: oed, rhyw, cyflwr iechyd, salwch neu nam, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, neu dim un o'r rhesymau hyn. Yr ysgogiad mwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer yr holl oedolion a fu'n destun trosedd casineb oedd ethnigrwydd (37%) ac yna cyfeiriadedd rhywiol (11%). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, i 34% o'r oedolion gyda nam a 30% o oedolion heb nam roi'r ateb 'dim un o'r rhesymau hyn' i'r cwestiwn o ysgogiad y drosedd casineb ac, felly, teimlant eu bod wedi dioddef trosedd casineb oherwydd ffactorau nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr holiadur.

Ar gyfer pob oedolyn gyda nam, rhoddwyd rhesymau yn ymwneud â chyflwr iechyd, salwch neu nam ac anabledd fel yr ysgogiad ar gyfer trosedd casineb (15% a 18% yn y drefn honno).

Mae Arolwg Troseddau Prydain hefyd wedi cynnwys cwestiynau ar droseddau a ysgogwyd gan hil ers 1996; crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oed ac anabledd ers 2007/08; rhyw ers 2009/10 a hunaniaeth rhyw (trawsrywiol) ers 2011/12. Mae dadansoddiad pellach o'r ymateb i gwestiynau ar ysgogiadau troseddau yn digwydd ar hyn o bryd, gan ddisgwyl ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ym Mawrth 2012.

Atodiad B: Prosiectau a ariannwyd dan y Gronfa Dioddefwyr a Thystion

Sefydliadau yn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a ariennir gan Gronfa Gyffredinol Dioddefwyr a Thystion 2011-14			
Sefydliad	Ardal ddaearyddol a gwmpasir	Crynodeb o weithgaredd	Gwerth dyfarniad (3 mlynedd oni bai y nodir fel arall)
Ipswich and Suffolk Council for Racial Equality	Suffolk ~ Cenedlaethol	Bydd cais gan gonsortiw m o bum sefydliad yn datblygu ymagwedd partneriaeth i gefnogi pob dioddefydd troseddau casineb ledled chwe ffrwd wahanol, yn cyflawni llwybr integredig i ddiodefwyr, creu canolfannau adrodd a systemau newydd a darparu cefnogaeth ymarferol i ddiodefwyr.	£386,400
Greenwich Action Committee Against Racist Attacks (GACARA)	Greenwich, Llundain	Cynnal gwasanaethau cefnogaeth rheng flaen (llynell gymorth 24 awr a gwasanaeth allgymorth) a chynyddu cymhwyster trwy ehangu ei recriwtio o wirfoddolwyr a rhaglen hyfforddiant.	£66,136
Milton Keynes Equality Council	Milton Keynes	Darparu gweithiwr achos i gynnig cefnogaeth ymarferol a chynghori a chefnogaeth atodol i ddiodefwyr yn defnyddio cyfiawnder adferol.	£173,700
Pakistani Resource Centre	Manceinion Fwyaf	Gwasanaeth cynghori, cefnogaeth ymarferol i ddiodefwyr a gweithio mewn partneriaeth i gynyddu atgyfeiriadau a chefnogaeth.	£84,740
Bede House Association	Southwark, Llundain	Cynnal a chynyddu gwasanaethau cefnogaeth a hyfforddiant rheng flaen ar gyfer gweithiwr achos Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.	£156,152
The Metro Centre Ltd	De Llundain	Gwella hygyrchedd ac adeiladu gallu ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth rheng flaen.	£88,500
JAN Trust (Joint Association of Nissa Trust)	Haringey, Llundain	Cynyddu cymhwyster ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn darparu cefnogaeth a chynghori i ddiodefwyr troseddau casineb, yn arbennig ffoaduriaid, ceiswyr lloches a menywod Mwslimaidd.	£137,536

Sefydliadau yn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a ariennir gan Gronfa Gyffredinol Dioddefwyr a Thystion 2011-14			
Sefydliad	Ardal ddaearyddol a gwmpasir	Crynodeb o Weithgaredd	Gwerth y dyfarniad (3 blynedd oni nodir fel arall)
Ardal ddaearyddol a gwmpasir Crynodeb o Weithgaredd Gwerth y dyfarniad (3 blynedd oni nodir fel arall) Support Against Racist Incidents (SARI)	Gorllewin Lloegr	Cynnal a chynyddu cefnogaeth rheng flaen a gwasanaethau cynghori i ddiodesfwyr troseddau casineb hil.	£89,025
Stop Hate UK	Llundain a Gogledd Lloegr	Datblygu gweithio mewn partneriaeth o fewn ardaloedd i ddarparu gwell gwasanaethau cefnogaeth i ddiodesfwyr Troseddau Casineb	£64,440
Community Security Trust	Cymru a Lloegr	Cefnogi diodesfwyr troseddau casineb gwrth-semitig, gan ddarparu cymorth ymarferol a chynyddu adrodd.	£147,000
Society for the Promotion and Advancement of Romany Culture (SPARC)	Cleveland	Cefnogi diodesfwyr Troseddau Casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.	£89,696
Kingston Race and Equalities Council (KREC)	Kingston, Richmond a Merton, Llundain	Cynnal a chynyddu ei wasanaethau rheng flaen gan ddarparu cefnogaeth a chynghori i ddiodesfwyr troseddau casineb yn Ne Orllewin Lloegr.	£66,136
Lesbian and Gay Foundation	Manceinion Fwyaf	Cynyddu cefnogaeth ac adrodd ar Droseddau Casineb a chryfhau cysylltiadau presennol gydag asiantaethau statudol i wella cefnogaeth i ddiodesfwyr troseddau casineb.	£59,000
Lancashire Disability Information Federation	Swydd Gaerhirfryn, Blackburn gyda Darwen a Blackpool, Swydd Gaerhirfryn	Sefydlu canolfan adrodd troseddau trydydd parti ar gyfer diodesfwyr troseddau casineb ar sail anabledd.	£105,412
GALOP (Lesbian, Gay and Bisexual Anti-Violence and Policing Group)	Llundain Fwyaf	Cynnal gwasanaethau rheng flaen trwy ddarparu gweithiwr achos llawn amser yn cyflawni cefnogaeth i ddiodesfwyr Troseddau Casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd.	£133,126
Canolfan Cyngor ar Bopeth Stoke on Trent	Stoke on Trent, Swydd Stafford	Gwella gwasanaethau allgymorth ac adeiladu gallu trwy gynyddu gweithio mewn partneriaeth.	£65,966
DIAL House Caer	Caer, Swydd Gaer	Cefnogi diodesfwyr Troseddau Anabledd yn gysylltiedig ag anabledd trwy sefydlu Hyrwyddwr Troseddau Casineb a sefydlu canolfan adrodd trydydd parti.	£23,130
VOICE UK	Cymru a Lloegr	I gefnogi diodesfwyr troseddau casineb trwy ddatblygu'r llinell gymorth a darpariaeth gwasanaeth gwaith achos.	£163,556
Brighton and Hove Impetus	Brighton a Hove, Sussex	Sefydlu gweithiwr achos diodesfwyr a thystion i ddarparu cefnogaeth ymarferol, gwella gweithio mewn partneriaeth a sefydlu rhwydwaith o ganolfannau adrodd.	£88,961

ISBN 978-1-84987-733-6

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.